

Polisi Egwyl Iach

YSGOL WAUNFAWR

Cyflwyniad

Mae Ysgol Waunfawr wedi ymrwymo i gynllun ysgol iach ac yn parhau i hybu iechyd drwy bob agwedd o fywyd ysgol. Mae amser egwyl yn gyfnod pwysig iawn yn niwrnod ysgol i ddisgyblion a'r staff ac ydym yn edrych ar ddatblygu'r amser yma fel bod pawb yn elwa. Bwriad y polisi yma yw i sefydlu strwythur ar gyfer amser egwyl.

Yr agweddau a chynnwys yn y polisi egwyl iach yw:-

- Ffrwythau amser egwyl
- Pecynnau bwyd
- Datblygu ymddygiad positif ar y buarth
- Datblygu goruchwyliaeth amser cinio
- Iechyd a Diogelwch

Strwythur amser egwyl

Cynhelir egwyl y bore rhwng 10.30 a 10.50am. Goruchwylir y cyfnod yma gan aelod o staff sydd ar ddyletswydd. Cennir y gloch am 10.50am a disgwylir i'r disgyblion greu llinellau yn ôl eu dosbarthiadau. Bydd yr athrawon yn disgwyl am y plant ger ddrws eu dosbarth ac yn eu tywys i mewn iddo. Anogir i'r plant ddefnyddio'r toiledau yn ystod amser egwyl. Mae Ffrindiau Ffeind yn monitro ymddygiad ar yr iard ac yn rhoi cymorth i'r plant lleiaf i fynd i'r toiledau. Os oes unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud ag ymddygiad disgyblion disgwylir iddynt rhoi wybod i'r aelod o staff ar ddyletswydd. Ni chaniateir i ddisgyblion gario cwpanau te/coffi, llawn neu wag i'r aelod o staff ar ddyletswydd.

Cynhelir amser cinio rhwng 12.00 a 1.00pm. Mae y plant sy'n derbyn cinio yn bwyta yn y neuadd. Goruchwylir amser cinio gan goruchwylwr penodedig. Mae'r plant sy'n bwyta brechdanau yn gwneud hynny yn y neuadd. Pan mae'r disgyblion wedi bwyta eu cinio anogir iddynt fynd allan i chwarae dan ofal y goruchwylwyr iard. Pan gennir y gloch am 1.00pm mae'r un drefn a eglurwyd cynharach yn cael ei ddilyn.

Dilynir yr un drefn a'r egwyl bore yn ystod y prynhawn 2.20pm-2.30pm

Os yw'r tywydd yn anffafriol i'r disgyblion fynd allan i chwarae mae plant yr Adran Iau yn cael gwyllo ffilm (**tystysgrif U**) yn y neuadd dan oruchwyliaeth aelod o staff ar ddyletswydd. Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn aros yn nosbarth blwyddyn 1 a 2 gyda'r cymhorthyddion dosbarth i wyllo ffilm.

Hybu Iechyd yn ystod Amser Egwyl

Byrbryd amser egwyl

- Yn dilyn canlyniadau arolwg deintyddol ni chaniateir fferins yn yr ysgol. Anogir i'r disgyblion i ddod a ffrwyth i'w fwyta amser egwyl. Mae'r rheol yma wedi ei nodi yn llawlyfr yr ysgol ac mae'r disgyblion a'r rhieni yn ymwybodol o hyn. Mae'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llefrith di-dâl bob bore.

Pecynnau Bwyd

- Mae canran isel o ddisgyblion yn dod â phecyn bwyd i'r ysgol. Fel canlyniad o fod ynghlwm â phrosiect 'Ysgol Sy'n Hybu Iechyd' mae'r ysgol wedi addasu'r polisi i gynnwys pecynnau bwyd iachus. Disgwylir i'r pecyn bwyd gynnwys bwydydd cytbwys o'r prif categori, sef

ffrwythau, llysiau
bara, grawnfwyd, tatws
Llefrith a chynnyrch llefrith
Cig, pysgod, ffa

Mae canllawiau gan y deiategydd ar gael ar gyfer rhieni os y dymunir. Disgwylir i'r polisi hwn gael ei ystyried pan fydd angen pecyn bwyd ar daith ysgol.

Datblygu ymddygiad positif

- Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr sydd yn delio gyda datblygu ymddygiad positif. Amlygwyd hwn yn y strategaeth ymddygiad.

Datblygu goruchwyliaeth amser cinio

- Mae gan bob goruchwyllydd swydd ddisgrifiad ac mae'r ysgol gyda ymrwymiad i ddatblygu'r staff drwy fenter Buddsoddwyr Mewn Pobl.

Agweddau Iechyd a Diogelwch

- Derbyniwyd y goruchwylwyr hyfforddiant Cymorth Cyntaf
- Mae rhieni yn cael gwybodaeth am unrhyw anaf damweiniol a nodir y digwyddiad yn y llyfr ddamweiniau
- Disgwylir i'r staff adrodd ar unrhyw fater/agwedd iechyd a diogelwch i'r Pennaeth yn brydlon.
- Mae Ffrindiau Ffeind yr ysgol ar gael yn ystod amseroedd chwarae a cinio i gynorthwyo gyda'r plant lleiaf.

Trefniadau ar gyfer adolygu'r polisi –
adolygir pob tair blynedd

Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Cadeirydd Llywodraethwyr 10/5/07

Arwyddwyd gan y Cadeirydd _____

Dyddiad Adolygu

Rhagfyr 8fed 20 11
Ionawr 29ain 2015

Strategaethau i'w ystyried ar gyfer datblygu Polisi Egwyl Iach

- Byrbrydau iach
Atgoffa rhieni
Sefydlu siop ffrwythau
- Pecynnau bwyd
Llunio llythyr esboniadol
Anfon taflenni a llythyr esboniadol
Polisi egwyl iach i'w gynnwys yn llawlyfr yr ysgol

- Datblygu ymddygiad positif ar y buarth
Strategaeth ymddygiad positif
Menter Ffrindiau Ffeind
- Datblygu goruchwyliaeth amser cinio
Rheolau a chytundebau gan disgyblion a staff ynglŷn a amser cinio
- Agweddau Iechyd a Diogelwch
Rhoi gwybod i'r rhieni am ddamweiniau neu anafiadau
Cyflwyno a thrafod y polisi gyda'r Llywodraethwyr